



# Rheoli asbestos mewn ysgolion

## Canllawiau

Dogfen ganllaw rhif: 251/2019

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2019

Yn disodli dogfen ganllaw rhif: 138/2014

## Rheoli asbestos mewn ysgolion

**Cynulleidfa** Deiliaid dyletswydd ac eraill mewn ysgolion sydd â rôl i'w chwarae o ran rheoli asbestos yn ddiogel mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, penaethiaid, rheolwyr busnes ysgolion, rheolwyr cyfleusterau, llywodraethwyr ysgol, yr holl staff addysgu a staff cymorth sy'n gysylltiedig ag ysgolion, staff cynnal a chadw a gofalwyr, cynrychiolwyr iechyd a diogelwch undebau llafur, aelodau timau rheoli ysgolion ac ymddiriedolaethau elusennol sy'n gweithio mewn ysgolion sy'n cynnwys asbestos.

**Trosolwg** Bwriedir i'r ddogfen ganllaw hon roi trosolwg o'r hyn y mae angen i ddeiliaid dyletswydd ysgolion ei wneud er mwyn sicrhau y caiff y risg sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos mewn ysgolion ei rheoli. Bydd yn helpu deiliaid dyletswydd i ddeall eu rhwymedigaethau a'u dyletswyddau yn ogystal â chyfeirio at ddeunydd canllaw a chymorth manylach i ysgolion.

**Camau gweithredu gofynnol** Mae angen i dimau rheoli ysgolion sicrhau y caiff gwaith cynnal a chadw, gwaith atgyweirio a gwelliannau i adeiladau ysgolion eu gwneud yn ddiogel. Dylent gymryd y camau canlynol er mwyn rheoli'r asbestos yn eu hysgol:

- Cynnal 'arolwg rheoli' o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.
- Asesu'r risg sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a nodwyd.
- Llunio cynllun ar gyfer rheoli asbestos.
- Gwneud yn siŵr bod staff, ymwelwyr a chontractwyr yn gwybod y risgiau a'r rhagofalon sydd angen eu cymryd.
- Gwneud yn siŵr y cynhelir arolwg adnewyddu a dymchwel os bydd angen gwneud unrhyw waith ar adeilad yr ysgol.
- Sicrhau bod y broses o reoli asbestos yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

**Rhagor o wybodaeth** Caiff y ddogfen ganllaw hon ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y cyngor diweddaraf. Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Tîm y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [21stcenturyschools@llyw.cymru](mailto:21stcenturyschools@llyw.cymru)

**Copïau ychwanegol** Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/asbestos-management-in-schools/?lang=cy>

**Dogfennau cysylltiedig** *Rheoli asbestos mewn ysgolion 138/2014*

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

**OGL** (h) Hawlfraint y Goron 2019 ISBN Digidol 978 1 83933 075 9 WG38779

# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>4</b>
<b>2. Beth yw asbestos a phryd mae'n peri risg</b>	<b>5</b>
<b>3. Cyfrifoldeb am reoli asbestos yn ddiogel yn eich ysgol</b>	<b>6</b>
3.1 Y fframwaith deddfwriaethol	6
3.2 Y deiliad dyletswydd	6
<b>4. Rheoli asbestos yn ddiogel yn eich ysgol o ddydd i ddydd</b>	<b>8</b>
Cam 1: Cynnal arolwg rheoli o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eich ysgol	8
Cam 2: Asesu ac adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eich ysgol.	10
Cam 3: Llunio cynllun ar gyfer rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag asbestos yn eich ysgol mewn modd gweithredol	12
Cam 4: Gwneud yn siŵr bod staff, contractwyr ac ymwelwyr eraill yn gwybod y risgiau a'r rhagofalon sydd angen eu cymryd a'u bod wedi cael hyfforddiant priodol	13
Cam 5: Adolygu'r broses o reoli asbestos yn eich ysgol yn rheolaidd	15
<b>5. Rheoli asbestos pan fydd angen gwneud gwaith adeiladu neu gynnal a chadw</b>	<b>16</b>
5.1 Gwaith cynnal a chadw/mân waith o dan reolaeth yr ysgol/yymddiriedolaeth/Awdurdod Lleol	17
5.2 Yr angen am wybodaeth arolwg ychwanegol	17
5.3 Sicrhau y gall gwaith gael ei wneud yn ddiogel	18
5.4 Gwaith adeiladu ar raddfa fwy:	18
5.5 Deunyddiau Gwastraff	18
<b>6. Cyllid ar gyfer gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw ar adeiladau ysgol</b>	<b>20</b>
<b>7. Beth i'w wneud os bydd pethau yn mynd o chwith</b>	<b>21</b>
<b>8. Rhestr wirio gwybodaeth</b>	<b>22</b>
<b>9. Sefydliadau defnyddiol</b>	<b>23</b>

# 1. Cyflwyniad

Gall adeiladau eich ysgol gynnwys asbestos os cafodd unrhyw ran ohonynt ei hadeiladu cyn 2000. Mae'n bwysig iawn y caiff unrhyw asbestos sy'n bresennol yn eich ysgol ei reoli'n briodol. Os na chymerir y camau a nodir yn y cyngor hwn, mae'n bosibl y bydd risg i iechyd staff a disgyblion ysgolion yn y dyfodol. Gallai deiliaid dyletswydd hefyd gael eu herlyn os byddant yn methu â chydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012.

Dylai timau rheoli ysgolion gymryd y camau canlynol er mwyn rheoli'r asbestos yn eich ysgol:

- Cynnal 'arolwg rheoli' o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.
- Aseu'r risg sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a nodwyd.
- Llunio cynllun ar gyfer rheoli asbestos.
- Gwneud yn siŵr bod staff, ymwelwyr a chontractwyr yn gwybod y risgiau a'r rhagofalon sydd angen eu cymryd.
- Sicrhau y caiff y broses o reoli asbestos ei hadolygu'n rheolaidd.

Os bydd angen i chi wneud unrhyw waith adnewyddu neu darfu ar adeiladwaith adeilad sy'n cynnwys asbestos, efallai y bydd angen i chi gomisiynu arolwg adnewyddu a dymchwel a fydd yn sicrhau bod gennych ddealltwriaeth fanylach o'r asbestos sy'n bresennol yn yr adeilad.

Os bydd achos o amlygiad i asbestos yn eich ysgol dylech gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod pawb yn ddiogel ac, oni bai bod yr achos yn un bach iawn, bydd angen i chi roi gwybod am hyn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## 2. Beth yw asbestos a phryd mae'n peri risg

Mae'r mwyafrif o adeiladau ysgolion yn cynnwys asbestos. Gall fod yn weladwy neu wedi'i guddio fel mewn dulliau adeiladu CLASP/Adeiladu System. Mae asbestos yn fwyn ffeibrig sy'n digwydd yn naturiol a ymgorfforwyd mewn amrywiaeth eang o ddeunyddiau a ddaeth yn rhan o adeiladau neu wrthrychau yn y DU hyd at y flwyddyn 2000. Cyn i'r effeithiau y mae ei ffeibrau yn eu cael ar iechyd gael eu deall yn llawn, ystyriwyd bod asbestos yn ddeunydd adeiladu gwerthfawr am ei fod yn gryf ac yn gallu gwrthsefyll tân. Fe'i defnyddiwyd yn helaeth mewn ysgolion fel deunydd diogelu rhag tân ac inswleiddio rhwng 1945 a 1975. Os caiff ei reoli'n ofalus, ni fydd presenoldeb asbestos yn eich ysgol yn peri risg i'ch staff na'ch disgyblion. Fodd bynnag, os caiff ei reoli'n wael gallai asbestos yn eich ysgol beryglu bywydau.

Heb eu difrodi, ni fydd deunyddiau wedi'u hamgáu neu wedi'u selio yn rhyddhau ffeibrau. Fodd bynnag, mae problemau yn codi os terfir ar asbestos neu os caiff ei ddifrodi, gall ffeibrau asbestos gael eu rhyddhau i'r aer a'u hanadlu i mewn gan staff a phlant. O ganlyniad, mae risg y gallent ddatblygu nifer o glefydau difrifol yn ddiweddarach yn eu bywyd, gan gynnwys mesothelioma a chanser yr ysgyfaint.

Gall amlygiad i asbestos achosi problemau iechyd difrifol, gan gynnwys mesothelioma a chanser yr ysgyfaint. Fodd bynnag, nid yw risgiau cymharol amlygiad i asbestos yn yr ysgol a ph'un a yw plant yn wynebu mwy o risg nag oedolion yn cael eu deall yn llawn. Daeth Pwyllgor yr Adran Iechyd ar Garsinogenigrwydd i'r casgliad, oherwydd eu disgwyliad oes uwch o'u cymharu ag oedolion a'r cyfnod cudd hir i'r clefyd ddatblygu, fod plant yn wynebu mwy o risg o ddatblygu mesothelioma yn ystod eu hoes os cânt eu hamlygu i ddos penodol o asbestos<sup>1</sup>. Y gweithgareddau sydd fwyaf tebygol o arwain at symud **deunyddiau sy'n cynnwys asbestos** mewn ysgolion yw gwaith adeiladu a chynnal a chadw/atgyweirio a gwella. Byddai enghreifftiau o hyn yn cynnwys gosod cyfarpar a cheblau TGCh newydd; prosiectau adnewyddu megis gosod ffenestri newydd, newidiadau i adeiladwaith ystafell ddosbarth a gosod cyfarpar arddangos.

Gall deunyddiau sy'n cynnwys asbestos hefyd gael eu symud drwy fandaliaeth, difrod damweiniol neu ymddygiad afreolus.

### Adnoddau Allweddol:

[Tudalennu gwe'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar asbestos \(Saesneg yn unig\)](#)

[Fideo'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: hanes dioddefwr asbestos \(Saesneg yn unig\)](#)

<sup>1</sup><https://www.gov.uk/government/publications/relative-vulnerability-of-children-to-asbestos-compared-to-adults>

<http://www.hse.gov.uk/services/education/asbestos-system-buildings.pdf>

## **3. Cyfrifoldeb am reoli asbestos yn ddiogel yn eich ysgol**

### **3.1 Y fframwaith deddfwriaethol**

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ddiogelu eu cyflogeion yn y gwaith. Mewn ysgolion, mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion, ymwelwyr a phob unigolyn arall gael eu diogelu rhag niwed i'w hiechyd a'u diogelwch sy'n deillio o risgiau hysbys neu ragweladwy. Er y gall y cyflogwr ddirprwyo cyfrifoldebau, swyddogaethau neu rolau i staff ysgolion, ni ellir dirprwyo'r 'ddyletswydd' ac mae'n aros gyda'r cyflogwr. Y cyflogwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau addas ar waith i reoli'r deunyddiau sy'n cynnwys asbestos mewn ysgol a monitro effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswyddau penodol ar y rhai sy'n rheoli safleoedd annomestig i nodi presenoldeb deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod dyletswyddau ar unigolion eraill megis contractwyr, er enghraifft, i ddiogelu eu cyflogeion.

Os ydych yn gyfrifol am gynnal a chadw, atgyweirio neu wella safleoedd ysgolion, neu gyfarpar sy'n defnyddio deunyddiau sy'n cynnwys asbestos, byddwch yn gyfrifol, o dan y ddyletswydd, am reoli asbestos.

### **3.2 Y deiliad dyletswydd**

Yn nwylo'r 'deiliad dyletswydd' y mae'r cyfrifoldeb cyfreithiol am reoli asbestos yn ddiogel. Diffinnir y deiliad dyletswydd yn Rheoliad 4 o Reoliadau Rheoli Asbestos 2012 ("y Rheoliadau") fel unrhyw un sydd â rhwymedigaeth i gynnal a chadw neu atgyweirio safle annomestig yn rhinwedd contract neu denantiaeth. Os nad oes unrhyw un sydd â'r fath rwymedigaeth, yr unigolyn sy'n rheoli'r safle neu unrhyw fynedfa i'r safle yw'r deiliad dyletswydd.

Yn achos y rhan fwyaf o ysgolion, y prif ddeiliad dyletswydd fydd y cyflogwr, sef yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r cyflogwr yn amrywio mewn gwahanol fathau o ysgolion:

Yn achos ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion meithrin a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, yr awdurdod lleol yw'r deiliad dyletswydd (gweler adrannau 35 a 26 o Ddeddf Addysg 2002 a'r Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru)).

Yn achos ysgolion sefydledig, pennaeth yr ysgol a'r corff llywodraethu ydyw. Rhennir y cyfrifoldeb am ddarparu, atgyweirio a chynnal a chadw ysgol wirfoddol a gynorthwyr rhwng llywodraethwyr yr ysgol a'r awdurdod lleol. Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am adeiladwaith allanol yr ysgol. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw'r ysgol a darparu'r gegin, y neuadd fwyta, yr ystafell archwiliadau meddygol, tŷ'r gofalwr a meysydd chwarae i ddechrau.

Yn achos ysgolion annibynnol, efallai mai'r perchennog, y corff llywodraethu, bwrdd yr ymddiriedolwyr neu gorff cyfatebol yw'r deiliad dyletswydd.

Mewn sefyllfaoedd lle mae cyllidebau ar gyfer rheoli adeiladau wedi'u dirprwyo i ysgolion gan yr awdurdod lleol, bydd yr ysgolion a'r awdurdod lleol yn rhannu'r cyfrifoldeb am reoli asbestos. Bydd cynllun ysgrifenedig yr awdurdod ar gyfer ariannu ysgolion a gynhelir yn nodi'r categorïau o waith a gaiff eu hariannu naill ai o gyfran yr ysgol o'r gyllideb a ddirprwywyd (gwariant refeniw ar waith atgyweirio a chynnal a chadw) neu bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt o hyd (gwariant cyfalaf). Felly, bydd gan y ddau barti gyfrifoldebau am atgyweirio a chynnal a chadw'r safle.

Er y gellir dirprwyo rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau i dîm rheoli'r ysgol ac unigolion enwebedig, mae'r awdurdod lleol fel y cyflogwr yn cadw'r ddyletswydd o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Felly, mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli asbestos, bod y rhai sydd â'r cyfrifoldebau dirprwyedig wedi cael hyfforddiant addas a'u bod yn gwybod sut i gyflawni eu rôl a bod prosesau monitro addas ar waith er mwyn sicrhau bod y trefniadau wedi'u rhoi ar waith a bod y risgiau yn cael eu rheoli. Mae'n hanfodol bod rolau a chyfrifoldebau pob parti perthnasol yn cael eu nodi'n glir a'u bod yn cael eu deall yn llawn er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau.

Er ei bod yn bosibl nad chi yw'r deiliad dyletswydd cyfreithiol, mae pawb sy'n ymwneud â rheoli a gweithredu ysgol yn chwarae rôl bwysig o ran rheoli asbestos yn ddiogel.

O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i'r cyflogwr ymgynghori â chyflogeion ar faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch, gan gynnwys rheoli asbestos. Mae hyn yn cynnwys staff addysgu, staff cymorth a staff eraill ar y safle. Dylid rhoi sylw penodol i'r rhai sy'n gwneud gwaith gofalu a chynnal a chadw cyffredinol yn rheolaidd yn yr ysgol e.e. gofalwr yr ysgol. Gall cynrychiolwyr diogelwch undebau ddefnyddio eu harolygiadau iechyd a diogelwch i godi ymwybyddiaeth o asbestos a thrafod pryderon â'u haelodau a rheolwyr. Os na fyddwch yn cymryd y camau a nodir yn y cyngor hwn, mae'n bosibl y byddwch yn peri risg i iechyd staff a disgyblion ysgolion yn y dyfodol. Gallai'r deiliad dyletswydd hefyd gael ei erlyn am fethu â chydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012.

Nid yw deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion hysbysu rhieni am bresenoldeb asbestos yn ysgol eu plant. Mae rhai ysgolion yn rhoi gwybodaeth i rieni er mwyn rhoi sicrwydd iddynt fod trefniadau rheoli effeithiol ar waith. Fel arfer, os bydd rhieni yn gofyn am wybodaeth, dylai ysgolion ymateb i hyn. Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gov.uk eisoes yn esbonio, os bydd y trefniadau rheoli yn yr ysgol i atal deunyddiau sy'n cynnwys asbestos rhag cael eu symud yn methu a bod ffeibrau asbestos yn cael eu rhyddhau'n ddamweiniol, ei bod yn bwysig hysbysu'r rhai yr effeithir arnynt.

## **4. Rheoli asbestos yn ddiogel yn eich ysgol o ddydd i ddydd**

### **Cam 1: Cynnal arolwg rheoli o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eich ysgol**

Dylai fod gan bob ysgol arolwg addas, digonol a chyfredol o'r adeiladau sy'n nodi presenoldeb deunyddiau sy'n cynnwys asbestos. Dylai'r arolwg roi darlun cyfredol a chywir i'r ysgol o bresenoldeb deunyddiau sy'n cynnwys asbestos mewn ardaloedd hygyrch a nodi'r ardaloedd anhygyrch cyfyngedig mewn adeiladau lle y tybir bod asbestos yn bresennol neu lle na ellir diystyru'r posibilrwydd ei fod yn bresennol.

Arolwg rheoli yw'r arolwg safonol.

Yn ogystal â nodi ble mae deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn bresennol, dylai'r arolwg hefyd geisio nodi ardaloedd lle y tybir bod deunyddiau o'r fath yn bresennol neu lle maent yn debygol o fod yn bresennol a nodi'n glir ardaloedd lle na ellir diystyru'r posibilrwydd bod asbestos yn bresennol. Dylai'r arolwg hefyd gynnwys asesiad o unrhyw waith cynnal a chadw a gosod y rhagwelir y bydd angen ei wneud a allai ddifrodi neu symud deunyddiau sy'n cynnwys asbestos sydd eisoes yn hysbys ac asesu eu cyflwr. Ceir rhagor o wybodaeth yng nghanllawiau Arolwg Iechyd a Diogelwch Asbestos a restrir mewn adnoddau allweddol ar ddiwedd yr adran hon.

Bydd angen i chi wneud hyn ar gyfer pob adeilad a godwyd cyn 2000, gan gynnwys adeiladau newydd ag elfennau gweddilliol o adeiladau a godwyd cyn 2000. Mae'n rhaid i'r arolwg hwn fod yn gynhwysfawr ac yn systematig, gan nodi'r math o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos sy'n bresennol, eu lleoliad a'u cyflwr. Caiff y wybodaeth a gesglir gan yr arolwg ei defnyddio i lunio Cofrestr Asbestos. Dylai'r arolwg gael ei gynnal yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac, yn ddefnyddiol, gan sefydliad arolygu sydd wedi'i achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS).

Dim ond rhannau o'r adeilad sy'n hygyrch i'r arolygwr y gall arolwg rheoli eu cynnwys. Yn dibynnu ar natur yr adeilad, efallai na fydd yn cynnwys gwagleoedd uwchben y nenfydau na chwndidau o dan y llawr. O ganlyniad, ni fydd yn nodi'r holl ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos mewn adeilad ac, felly, dylid tybio bod asbestos yn bresennol mewn ardaloedd nas cwmpaswyd gan yr arolwg. Mae'n bosibl y bydd yr arolwg yn gofyn am rywfaint o fân waith ymwithiol ar adeiladwaith yr adeilad a chymryd samplau i weld a yw deunyddiau yn cynnwys asbestos. Fodd bynnag, er mwyn atal unrhyw ffeibrau asbestos rhag ymledu, dylid tarfu cyn lleied â phosibl ar adeiladwaith yr adeilad wrth gynnal yr arolwg hwn. Golyga hyn na fydd eich arolwg rheoli ond yn dweud wrthyfych am ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos sy'n hawdd eu cyrraedd. Dim ond ar gyfer rheoli asbestos yn ystod meddiannaeth a defnydd arferol o'ch ysgol y mae'n addas. Os byddwch yn gwneud unrhyw waith adeiladu yn eich ysgol, efallai y bydd angen i chi gynnal arolwg adnewyddu a dymchwel o'r ardaloedd lle y bydd y gwaith yn cael ei wneud i weld a yw asbestos yn bresennol mewn ardaloedd anhygyrch nas cynhwyswyd yn yr arolwg rheoli. Dylid asesu unrhyw waith arfaethedig er mwyn cadarnhau bod y wybodaeth bresennol o arolygon yn ddigonol er mwyn i'r gwaith gael ei wneud. Dylai'r asesiad hwn gael ei gynnal gan rywun sy'n gymwys i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Gan ddefnyddio ei brofiad o faes adeiladu, dylai'r arolygwr nodi'r math o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos y tybir eu bod yn bresennol a'u lleoliadau tebygol yn yr ardaloedd lle y tybir eu bod yn bresennol.

Mewn rhai achosion, ystyriwyd bod arolygon yn annigonol neu nad ydynt yn adlewyrchu statws presennol yr adeiladau a'r deunyddiau sy'n cynnwys asbestos. Os ystyrir bod arolygon yn



annigonol, dylid eu hailgynnal. Dylai ysgolion adolygu eu harolwg a sicrhau'r canlynol:

- Ei fod wedi cael ei gynnal gan arolygwr â chymwysterau addas / achrededig;
- Ei fod yn cwmpasu'r holl adeiladau/strwythurau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r ysgol ac yn cynnwys pob ardal yr ystyrir ei bod yn hygyrch (gan gynnwys sicrhau bod ystafelloedd switsys yn hygyrch er mwyn i gontractwyr allu cynnal arolygiadau rheolaidd ohonynt neu wneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd arnynt);
- Ei fod yn nodi'n glir unrhyw ardaloedd nas arolygwyd, y rhesymau pam a bod goblygiadau hyn ac unrhyw gyfyngiadau neu gafeatau yn yr arolwg wedi'u hystyried a bod cynlluniau wedi'u llunio er mwyn mynd i'r afael â nhw;
- Ei fod yn nodi'n glir y math o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos a nodwyd, sut olwg sydd arnynt, eu lleoliad, eu cyflwr a faint ohonynt sydd.
- Ei fod yn nodi'n glir ardaloedd gwirioneddol anhygyrch lle y gellir rhagweld bod asbestos yn bresennol neu lle na ellir diystyru'r posibilrwydd ei fod yn bresennol ac, felly, y mae'n rhaid tybio ei fod yn bresennol.
- Y caiff ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu lleoliadau presennol deunyddiau sy'n cynnwys asbestos ar eu safle yn gywir;
- Ei fod yn dal i fod yn sail gyfredol a pherthnasol i'r trefniadau ar gyfer rheoli risg.

### **Adnoddau Allweddol:**

[Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar arolygon rheoli Asbestos:](#)

[y canllaw i arolygon \(Saesneg yn unig\)](#)

[Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig \(UKAS\) \(Saesneg yn unig\)](#)

## Cam 2: Asesu ac adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eich ysgol.

Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod asesiad addas a digonol yn cael ei gynnal o'r risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos. Mae angen i'r asesiad hwn fod yn addas at y diben ac adlewyrchu lleoliadau a chyflwr presennol y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a sut y caiff yr adeiladau eu defnyddio. Mae'n bwysig na chaiff unrhyw arolwg ei gynnal ar ei ben ei hun. Mae angen i'r deiliad dyletswydd gydweithio â swyddog technegol yr awdurdod lleol a all, yn ei dro, drefnu i arolygwyr asbestos, ar ran ysgolion, nodi'r risg y gellid tarfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos; llunio cynllun rheoli asbestos a briffio'r pennaeth, lle y bo angen, ynghylch sut y dylid ei ddefnyddio.

Wrth ystyried y tebygolrwydd y terfir ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, mae'n bwysig cydnabod y defnydd a wneir o'r lleoliad a'r bobl a all fod yn bresennol, h.y. yr hyn y gellir tarfu arno wrth gynnal gweithgareddau cynnal a chadw rheolaidd neu weithgareddau bob dydd. Gall plant fod yn fwy tebygol nag oedolion o gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n tarfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos neu sy'n eu difrodi. Dylid defnyddio'r asesiad o flaenoriaethau i lywio gwaith cynllunio a phrosesau rheoli gweithredol.

Mae tair rhan i'r asesiad:

- i. **Asesiad o 'ddeunyddiau'** - fe'i darperir yn yr arolwg fel arfer ac mae'n asesiad o bob eitem o ddeunydd asbestos a nodwyd yn seiliedig ar y math o ddeunydd, y math o asbestos a geir ynddo, y driniaeth a roddwyd i'w arwyneb a maint y difrod.
- ii. **Asesiad o 'flaenoriaethau'** - dyma'ch asesiad o'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn tarfu ar y deunydd yn seiliedig ar ffactorau megis nifer y bobl a'r math o bobl (e.e. plant) sy'n defnyddio'r ystafell, yr amser a dreulir ganddynt yn yr ystafell, y lleoliad, hygyrchedd a faint o asbestos sy'n bresennol a'r math o weithgaredd a allai darfu arno a pha mor aml y mae'n digwydd.
- iii. **Asesiad 'cyfan'** – cyfunir yr asesiadau o'r asesiad o Ddeunyddiau a'r asesiad o Flaenoriaethau i roi'r asesiad risg cyfan. Mae hyn yn golygu bod modd cymharu'r risg sy'n gysylltiedig â phob eitem o ddeunydd sy'n cynnwys asbestos yn yr adeilad er mwyn i flaenoriaethau gael eu nodi a chynlluniau gael eu llunio ar gyfer rheoli'r deunyddiau.

Os yw'r asbestos yn adeilad eich ysgol mewn cyflwr da a'i bod yn annhebygol y caiff ei ddifrodi neu y terfir arno, fel arfer mae'n fwy diogel ei adael yn ei le a monitro ei gyflwr yn rheolaidd. Bydd newid mewn amgylchiadau (megis newid y defnydd a wneir o adeilad) yn gofyn am adolygiad o'r asesiad. Os bydd unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys asbestos mewn cyflwr gwael neu os oes risg y caiff ei ddifrodi neu y terfir arno, dylid ceisio cyngor proffesiynol ar y gwaith adfer sydd angen ei wneud, a all gynnwys amgáu neu symud yr asbestos.

Nodir y fethodoleg ar gyfer penderfynu ar yr asesiadau o ddeunyddiau yn HSG 264, sy'n cynnwys cyngor ar sut i ddehongli sgoriau'r asesiad o risg a gynhyrchir drwy'r broses hon. Mae'r fethodoleg ar gyfer Algorithm yr Asesiad o Risgiau â Blaenoriaeth wedi'i chynnwys yn Nogfen ganllaw HSG 227 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n ganllaw cynhwysfawr ar reoli asbestos ar safleoedd. Mae'r ddwy ddogfen hyn wedi'u cynnwys yn y Blwch Adnoddau Allweddol isod.

Dylai ysgolion adolygu eu hasesiad er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Ei fod wedi'i gynnal gan unigolyn â chymwysterau addas / cymwys ac wedi'i ddatblygu gan yr ysgol, neu ar y cyd â'r ysgol, fel ei fod yn adlewyrchu sut y mae'r safle yn cael ei ddefnyddio a gan bwy a'r risgiau a all fod yn gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos drwy weithgareddau y gellir eu rhagweld.
- Ei fod yn adlewyrchu proffiliau deunyddiau sy'n cynnwys asbestos ac yn nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng deunyddiau sy'n cynnwys asbestos sy'n peri risg is a deunyddiau sy'n peri risg uwch, a fydd, yn ei dro, yn llywio'r trefniadau ar gyfer monitro cyflwr deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a pha mor aml y bydd hynny'n digwydd;
- Ei fod yn cynnwys ardaloedd a nodwyd yn yr arolwg y tybir eu bod yn cynnwys asbestos;
- Bod trefniadau ar gyfer ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Fel arfer caiff canfyddiadau'r Arolwg a'r Asesiad eu cyfuno i roi darlun cyffredinol o'r lleoliadau a'r risgiau mewn cofnod a elwir fel arfer yn Gofrestr Asbestos (neu ddogfen gyfatebol). Dylai fod cofnod clir sy'n hawdd ei ddeall (gan gynnwys lluniadau a ffotograffau lle y bo'n berthnasol) sy'n nodi lleoliad y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos, eu cyflwr a faint ohonynt sydd yno, yn ogystal â'u ffurfiau/y mathau o ddeunyddiau a sut olwg sydd arnynt. Dylai'r cofnod hefyd nodi'n glir y rhannau o'r adeilad lle y tybir bod asbestos yn bresennol. Dylai'r crynodeb a roddir gan y gofrestr asbestos hefyd nodi'n glir unrhyw ardaloedd o fewn yr ysgol nas cwmpaswyd gan yr arolwg rheoli ac, felly, lle na ellir diystyru'r posibilrwydd bod asbestos yn bresennol. Dylai nodi'n glir hefyd y bydd angen i'r ardaloedd hyn fod yn destun arolwg pellach cyn caniatáu i unrhyw waith cynnal a chadw neu adeiladu dilynol gael ei wneud ynddynt.

Mae angen diweddarau'r gofrestr yn rheolaidd fel ei bod yn darparu darlun cyfoes a chywir o'r wybodaeth bresennol am leoliadau o fewn yr adeilad lle ceir deunyddiau sy'n cynnwys asbestos. Dylid diweddarau'r gofrestr yn dilyn gwaith a oedd yn cynnwys symud asbestos a phan nodir lleoliadau eraill lle ceir deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn sgil arolygon pellach. Yn ogystal, dylid defnyddio'r gofrestr asbestos i lywio'r Cynllun Rheoli Asbestos ac i fonitro'r deunyddiau a nodwyd.

## **Adnoddau Allweddol:**

[System sgorio enghreifftiol](#)

['Managing my Asbestos'](#) canllaw cam wrth gam a luniwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

['Health and Safety Guidance \(HSG\) 227, A comprehensive guide to managing asbestos in premises'](#) – yn arbennig Atodiadau 2, 3 a 4

[Canllawiau ar Iechyd a Diogelwch \(HSG\) 264, Asbestos: Y Canllaw i Arolygon \(Saesneg yn unig\)](#)

### **Cam 3: Llunio cynllun ar gyfer rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag asbestos yn eich ysgol mewn modd gweithredol**

Mae Cynllun Rheoli Asbestos perthnasol a chyfredol ar gyfer yr ysgol yn hanfodol. Dylai'r cynllun nodi eich trefniadau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos o ddydd i ddydd yn yr ysgol yn ystod gweithgareddau arferol a rhagweladwy ar y safle. Dylid bod wedi defnyddio gwybodaeth y Gofrestr Asbestos i lywio'r gwaith o lunio'r Cynllun Rheoli Asbestos. Dylai'r Gofrestr a'r Cynllun Rheoli Asbestos gael eu rhannu â (a/neu'n amodol ar ymgynghori â) chynrychiolwyr diogelwch perthnasol a phob aelod o staff, yn enwedig staff cynnal a chadw a glanhau.

Bydd eich Cynllun Rheoli Asbestos yn cynnwys manylion am y canlynol:

- Ymrwymiad clir gan yr arweinwyr a datganiad ar berchenogaeth o'r risg;
- Rolau a chyfrifoldebau clir unigolion penodol (a/neu sefydliadau) sy'n gysylltiedig â'r trefniadau, a ddylai gael eu hategu gan ddatganiad cywir o strwythur trefniadol a threfniadau llywodraethu presennol yr ysgol a allai fod mewn dogfennau eraill;
- Gweithdrefnau ar gyfer rheoli gwaith cynnal a chadw arferol ac ymatebol, gan gynnwys rheoli contractwyr;
- Gweithdrefnau brys y mae angen eu rhoi ar waith os terfir ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn ddamweiniol neu'n anfwriadol, gan gynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol a defnydd cymunedol;
- Hyfforddiant sydd i'w ddarparu i bawb a allai ddod i gysylltiad â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn adeiladau'r ysgol (er enghraifft, Hyfforddiant Ymwybyddiaeth);
- Hyfforddiant sydd i'w ddarparu i'r rhai sydd â dyletswyddau Rheoli Asbestos penodol yn yr ysgol;
- Trafodaeth ynghylch deunyddiau sy'n cynnwys asbestos fel rhan o raglenni sefydlu staff, cyflwyniadau ac mewn cyfarfodydd llywodraethwyr.
- Y broses o enwebu'r rhai a all gofnodi eitemau yn y Cynllun Rheoli Asbestos neu ei ddiwygio;
- Y trefniadau ffurfiol ar gyfer adolygu a diweddarau'r Cynllun Rheoli Asbestos.

Yn benodol, dylai'r trefniadau rheoli hefyd sicrhau'r canlynol:

- Bod yr holl aelodau perthnasol o staff a nodir yn y cynllun yn ymwybodol o'u rolau a bod ganddynt ddigon o wybodaeth, profiad a hyfforddiant i gyflawni'r rolau a nodwyd;
- Bod system ar waith i fonitro cyflwr y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos hygyrch a nodwyd yn rheolaidd mewn modd gweithredol a'i gofnodi'n ffurfiol, yn ogystal â chyflwr cyffredinol yr adeiladau i nodi unrhyw ddirywiad yn eu cyflwr er mwyn sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig ag asbestos neu'r asbestos tybiedig yn cael eu rheoli'n effeithiol. (Mae hyn yn cynnwys y rhannau o'r adeilad lle caiff deunydd sy'n cynnwys asbestos ei amgáu neu ei selio er mwyn rheoli'r risg – er enghraifft, y selio mastig yn semau casinau colofnau mewn adeiladau CLASP). Dylai pa mor aml y mae'r deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn cael eu monitro gael ei bennu gan yr asesiad o flaenoriaethau
- Bod dealltwriaeth glir o'r camau sydd angen eu cymryd os terfir ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos neu os cânt eu difrodi yn anfwriadol, er gwaethaf eich holl waith.

## **Cam 4: Gwneud yn siŵr bod staff, contractwyr ac ymwelwyr eraill yn gwybod y risgiau a'r rhagofalon sydd angen eu cymryd a'u bod wedi cael hyfforddiant priodol**

Bydd gan bawb yng nghadwyn reoli eich ysgol ran i'w chwarae i sicrhau y caiff asbestos ei reoli'n effeithiol ar safle eich ysgol. Mae'n hanfodol bod yr holl aelodau perthnasol o staff a gweithwyr eraill gan gynnwys staff glanhau a gofalwyr yn cael eu hysbysu am leoliad a goblygiadau deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a nodwyd, yn cael y wybodaeth, y cyfarwyddyd a'r hyfforddiant cywir a'u bod yn glir ynghylch y rhagofalon y mae angen i'r Rheolwr Adeiladau a/neu'r Pennaeth eu cymryd gyda chymorth swyddogion technegol yr awdurdod lleol. Dylid rhoi sylw penodol i unigolion sy'n gyfrifol am fonitro ac asesu cyflwr y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ac adeiladwaith yr adeilad yn fwy cyffredinol) a staff sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw neu lanhau yn rheolaidd. Dylid esbonio risgiau sy'n gysylltiedig ag asbestos i weithwyr dros dro, gweithwyr asiantaeth a gweithwyr cyflenwi (staff addysgu / cymorth) hefyd, waeth beth fo hyd eu cyflogaeth gyda'r ysgol.

Nid yw'r rhan fwyaf o athrawon a staff yr ysgol yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r adeiladau nac yn gwneud gwaith atgyweirio na chynnal a chadw. Fodd bynnag, pan fo ysgolion yn gyfrifol am gomisiynu mân waith cynnal a chadw a phrosiectau bach yn uniongyrchol, bydd cyfrifoldebau deiliad dyletswydd yn gymwys; er mwyn sicrhau na fydd gwaith o'r fath yn difrodi deunyddiau sy'n cynnwys asbestos nac yn tarfu arnynt.

Ym mhob sefyllfa, bydd angen i ysgolion a'u staff wybod lleoliad unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos a sut y gellir eu difrodi neu darfu arnynt e.e. drwy binio gwaith ar waliau neu drwy ymddygiad afreolus disgyblion. Dylid cyfarwyddo staff i roi gwybod am unrhyw ddifrod i osodiadau neu ffitiadau'r ysgol, neu unrhyw ddirywiad yn eu cyflwr, a allai achosi i ffibrau asbestos gael eu rhyddhau. Dylid hysbysu ymwelwyr, contractwyr a defnyddwyr y tu allan i oriau/cymunedol yr adeilad am unrhyw gamau y gallai fod angen iddynt eu cymryd mewn perthynas â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

Bydd angen i'r Person Penodedig ar gyfer rheoli asbestos mewn ysgolion unigol gael hyfforddiant priodol penodol. Bydd angen i'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu gan ddarparwr hyfforddiant Asbestos cydnabyddedig sy'n meddu ar Gymeradwyaeth drwy sefydliad cymeradwyo hyfforddiant cydnabyddedig, ac yn unol â gofynion rheoliad 10 o Reoliadau Rheoli Asbestos 2012 a'r cyngor a geir yn y Cod Ymarfer Cymeradwy L143 e.e. Cymdeithas Hyfforddiant Asbestos y Deyrnas Unedig (UKATA). Dylai fod gan ysgolion drefniadau effeithiol ar gyfer nodi difrod a rhoi gwybod amdano a chymryd camau cymesur er mwyn sicrhau y caiff unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â difrod neu ddirywiad eu nodi a'u rheoli.

Dylai'r deiliad dyletswydd sicrhau bod yr unigolion neu'r sefydliadau hynny sydd â rolau a chyfrifoldebau penodol yn y cynllun yn cael hyfforddiant a gwybodaeth addas ac amser i gyflawni ei rôl yn effeithiol. Os oes gan unigolyn gyfrifoldebau, dylid ystyried enwebu dirprwy at ddibenion parhad busnes. Rydych wedi nodi'r angen am hyfforddiant – mae'n bosibl mai'r unig beth fydd ei angen yw'r "capasiti" i wneud y rôl a chael dirprwy i sicrhau parhad busnes.

Dylai'r Gofrestr Asbestos fod ar gael ar y safle ac mewn fformat a all fod ar gael ac a ddylai fod yn hawdd ei ddeall os gofynnir am y Gofrestr fel rhan o unrhyw ymateb brys. Mae hyn yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau Rheoli Asbestos 2012, sy'n cynnwys darparu'r cynllun i unrhyw unigolyn a all darfu ar asbestos, gan gynnwys gwasanaethau brys. Dylid defnyddio'r Gofrestr i lywio'r gwaith o gynllunio ac asesu unrhyw waith cynnal a chadw ac adeiladu arfaethedig neu ymatebol yn yr ysgol a'r goblygiadau mewn perthynas â'r deunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

**Adnoddau Allweddol:**

[Gallwch adolygu sut mae eich ysgol yn perfformio o ran rheoli asbestos drwy ddefnyddio rhestr wirio'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(HSE\) \(Saesneg yn unig\)](#)

[Mae cyngor ar wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(Saesneg yn unig\)](#)

## Cam 5: Adolygu'r broses o reoli asbestos yn eich ysgol yn rheolaidd

Dylid llunio'r Cynllun Rheoli Asbestos yn unol â'r cyngor a roddir yn y Cod Ymarfer Cymeradwy L143 (gweler paragraff 143) a'i adolygu'n rheolaidd (o leiaf bob 12 mis). Dylid ei ddiweddarau o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae gwybodaeth newydd, er enghraifft o arolygon adnewyddu a dymchwel;
- gwneir gwaith ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos;
- caiff deunyddiau sy'n cynnwys asbestos eu difrodi;
- caiff deunyddiau sy'n cynnwys asbestos eu symud;
- gwneir newidiadau mewn perthynas ag ystafelloedd, e.e. mae'r defnydd o wneir o'r ystafell yn newid
- mae cynllun adeilad yn newid sy'n effeithio ar leoliad y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

Dylai ysgolion hefyd sicrhau'r canlynol:

- Bod trefniadau clir ar gyfer adolygu'r arolwg, yr asesiad a'r Gofrestr yn rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn) a'u diweddarau, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu statws presennol y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn yr ysgol. Dylai gweithdrefnau gydnabod cyfyngiadau'r wybodaeth a ddelir a nodi pryd mae angen rhagor o wybodaeth (gan gynnwys arolwg adnewyddu a dymchwel).
- Bod y rhai sy'n cynnal yr arolygiadau rheolaidd wedi cael yr hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i nodi ardaloedd lle y gallai asbestos fod yn bresennol a chofnodi eu harsylwadau a deall sut i addasu sgoriau'r asesiadau risg o ddeunyddiau a blaenoriaethau, os oes angen gwneud hynny.
- Bod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau bod cyflwr y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn cael eu monitro'n rheolaidd mewn modd gweithredol yn unol ag amserlen glir sy'n seiliedig ar yr asesiadau o'r deunyddiau sy'n cynnwys asbestos. Dylai'r gwaith monitro hwn gael ei gofnodi'n briodol a dylai sicrhau bod y mesurau rheoli, sy'n atal mynediad at y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos neu sy'n eu diogelu, eu hamgáu neu'n eu selio, yn effeithiol o hyd.
- Bod y gwaith monitro yn cynnwys asesu goblygiadau cyflwr ehangach adeiladwaith cyffredinol adeiladau'r ysgol er mwyn sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd lle y tybir bod deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn bresennol hefyd yn cael eu rheoli.
- Bod trefniadau monitro ac archwilio addas ar waith er mwyn sicrhau y caiff y cynllun rheoli ei ddilyn a'i fod yn effeithiol.
- Y bydd angen i unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Asbestos neu eich Cynllun Rheoli Asbestos gael eu cyfleu i'r holl aelodau perthnasol o staff gan dîm arwain yr ysgol.

## 5. Rheoli asbestos pan fydd angen gwneud gwaith adeiladu neu gynnal a chadw

Mae camau penodol y mae'n rhaid i chi eu cymryd [o dan Reoliadau Rheoli Asbestos 2012](#) pan wneir gwaith ar y safle a allai darfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos (gan gynnwys gwaith uwchraddio, adnewyddu neu ddymchwel), yn enwedig mewn perthynas ag arferion gwaith rhwng y deiliad dyletswydd, yr ysgol a chontractwyr o dan Reoliadau 4 a 5. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith sy'n ymyrryd ag adeiladwaith eich adeilad, p'un a yw'n fân waith atgyweirio a wneir gan eich staff eich hunain neu'n brosiect mawr sy'n cael ei osod ar gontract allanol.

Pan fydd angen gwneud gwaith adeiladu, dylai fod trefniadau cadarn ac effeithiol ar waith er mwyn sicrhau na fydd gweithgareddau cynnal a chadw nac adeiladu yn tarfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos. Dylai gwaith sy'n debygol o darfu ar adeiladwaith yr adeilad fod yn destun mesurau rheoli cymesur. Dylai unrhyw un sy'n gwneud y math hwn o waith ar safle lle mae asbestos yn bresennol gael hyfforddiant ymwybyddiaeth o asbestos perthnasol er mwyn iddo allu adnabod deunyddiau sy'n cynnwys asbestos os bydd yn dod ar eu traws neu'n eu datgelu fel y bydd yn gwybod pryd i stopio yn ystod unrhyw waith. Dylai unrhyw waith a wneir gael ei drefnu ar y cyd ag adrannau technegol yr awdurdod lleol.

Fel arfer, bydd angen penodi contractwyr trwyddedig i wneud unrhyw waith sy'n debygol o darfu ar ddeunydd lapio pibellau asbestos, deunydd inswleiddio rhydd, caenau wedi'u chwistrellu a Bwrdd Inswleiddio Asbestos (a geir yn aml mewn adeiladau ysgol fel teils nenfwd, paneli wal, soffitiau, cladin ar waith dur strwythurol a leinin gwresogyddion aer cynnes). Gall rhai tasgau bach byr sy'n tarfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos gael eu cyflawni gan weithwyr didrwydded ar yr amod eu bod wedi cael gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant priodol ac y defnyddir y mesurau rheoli risg cywir. Mae cyngor ar y mathau o waith yr ystyrir ei fod yn drwyddedadwy neu'n anhwrwyddedadwy, yn hysbysadwy neu'n anhysbysadwy ar gael ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – gweler yr adran 'adnoddau allweddol' ar dudalen 12.

Dylai trefniadau rheoli asbestos sicrhau na fydd staff gofalu yn ymgymryd ag unrhyw fân waith, megis codi silffoedd, am y gallai'r waliau y gallent ddrilio i mewn iddynt fod wedi'u hadeiladu o asbestos neu gynnwys cynhyrchion megis AIB neu Sment Asbestos neu am y gallai cynnyrch Asbestos fod wedi'i guddio y tu ôl i orchudd gweladwy'r wal. At hynny, ni ddylai Gofalwyr wneud unrhyw waith sy'n arwain at darfu ar adeiladwaith yr adeilad, waeth pa mor fach ydyw, am y gallai hyn arwain at darfu'n anfwriadol ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos e.e. teils a gorchuddion llawr finyl sy'n cynnwys asbestos.

Ar gyfer unrhyw arferion gwaith, mae angen gweithdrefnau llofnodi cadarn a threfniadau clir ar gyfer rheoli contractwyr ac isgontractwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Os oes cyllidebau datganoledig ar gyfer gwaith mewn ysgolion, mae angen i'r sawl sy'n trefnu gwaith adeiladu neu gynnal a chadw sicrhau bod contractwyr yn gymwys i wneud y gwaith. Dylai ysgolion ddefnyddio'r cymhwysedd o fewn yr awdurdod lleol i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae angen hysbysu'r holl staff yn yr ysgol am fater rheoli asbestos a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau presennol. Mae hyn yn cynnwys staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, megis gofalwyr, glanhawyr, staff arlwyo yn ogystal ag athrawon cyflenwi, staff dros dro, staff swyddfa, goruchwylwyr canol dydd, staff y clwb brechwast, staff ar ôl ysgol, llywodraethwyr a deiliaid allweddi. Dylai gwybodaeth am reoli asbestos hefyd gael ei darparu i sefydliadau eraill sydd o bosibl yn rhannu safle'r ysgol yn ogystal â'r gwasanaethau hynny y gallai fod angen iddynt ymweld â'r ysgol, e.e. y gwasanaeth tân.



## **5.1 Gwaith cynnal a chadw/mân waith o dan reolaeth yr ysgol/ ymddiriedolaeth/ Awdurdod Lleol**

Dylai'r Cynllun Rheoli Asbestos nodi sut y caiff unrhyw waith sy'n mynd y tu hwnt i weithgareddau dyddiol arferol ei reoli er mwyn sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn cael eu rheoli.

Cyn dechrau ar waith ymatebol neu arfaethedig ar unrhyw raddfa sy'n debygol o darfu ar adeiladwaith yr adeilad (megis drilio) dylai fod trefniadau addas i adolygu'r Gofrestr Asbestos er mwyn asesu a yw'r gwaith yn debygol o darfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos a nodwyd neu y tybir eu bod yn bresennol neu beri risg iddynt. Dylid ystyried y posibilrwydd o ordaro damweiniol ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos gerllaw. Lle y bo'n bosibl, dylid cynnal yr adolygiad hwn ymhell cyn y gwaith arfaethedig er mwyn sicrhau y caiff goblygiadau unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos eu hystyried yn yr asesiad risg ar gyfer y dasg. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i asesu a yw'r arolwg rheoli yn darparu digon o wybodaeth i wneud y gwaith yn ofalus neu a oes angen cynnal arolwg pellach.

Mae'n rhaid i reolwyr contractwyr gael gwybodaeth berthnasol cyn gynted â phosibl cyn i'r gwaith ddechrau er mwyn iddynt allu asesu goblygiadau'r deunyddiau sy'n cynnwys asbestos i'r gwaith. Er mwyn osgoi'r risg o ddiffyg cyfathrebu, argymhellir yn gryf, er ei budd ei hun, y dylai person penodedig yr ysgol ei hun roi'r wybodaeth berthnasol i bob gweithiwr safle yn unigol bob dydd er mwyn osgoi achosion costus o darfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

Ar gyfer unrhyw waith sydd i'w wneud, dylai'r trefniadau sicrhau bod yr holl fesurau diogelu angenrheidiol wedi cael eu rhoi ar waith cyn i'r gwaith ddechrau. Dylai hyn gynnwys cadarnhau bod y gwiriadau angenrheidiol yn erbyn y Gofrestr Asbestos wedi'u cynnal, bod goblygiadau'r deunyddiau sy'n cynnwys asbestos wedi'u hasesu a bod y gwaith wedi'i gynllunio'n briodol a bod y dulliau gweithio a'r mesurau diogelu angenrheidiol wedi'u cytuno. Dylid rhoi ystyriaeth i reoli'r gwaith drwy ddefnyddio 'trwydded i weithio' neu system gyfatebol.

## **5.2 Yr angen am wybodaeth arolwg ychwanegol**

Os na fydd y wybodaeth a geir yn y Gofrestr Asbestos yn cynnig digon o wybodaeth i nodi deunyddiau sy'n cynnwys asbestos y gallai'r gwaith effeithio arnynt, neu os bydd yn amhendiant, bydd angen cynnal arolwg manylach.

[Dim ond ardaloedd y gellir eu cyrraedd yn hawdd a gwmpesir gan 'arolwg rheoli'. Efallai na fydd yn nodi'r holl ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos ac ni fydd yn cadarnhau presenoldeb deunyddiau sy'n cynnwys asbestos y tybir eu bod yn bresennol na deunyddiau o'r fath sydd wedi'u cuddio.

Gall hyn gynnwys 'arolwg adnewyddu a dymchwel' wedi'i dargedu, sy'n llawer mwy ymwithiol nag 'arolwg rheoli'. Mae'n annhebygol y bydd yn bosibl gwneud hyn mewn ardaloedd a feddiannir. Dylid defnyddio canfyddiadau arolygon ychwanegol i ddiweddarau'r asesiadau asbestos, y Gofrestr Asbestos a'r Cynlluniau Rheoli Asbestos a dylid eu defnyddio i lywio ystyriaethau ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu waith arfaethedig.

Dylai ysgolion fod yn gyfarwydd â'u dyletswyddau fel cleient o dan Reoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth i ddylunwyr ac adeiladwyr yn gynnar am beryglon sy'n bodoli eisoes gan gynnwys asbestos.

### **5.3 Sicrhau y gall gwaith gael ei wneud yn ddiogel**

Pan asesir bod gwaith yn annhebygol o darfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos neu eu difrodi, dylid adolygu'r gwaith arfaethedig cyn dechrau er mwyn cadarnhau bod yr ymholiadau perthnasol wedi'u gwneud a bod rheolaethau ar waith a'u bod yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, ar ôl iddo gael ei awdurdodi, dylai fynd rhagddo yn ofalus, a dylid bod yn effro i bresenoldeb annisgwyl deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a bod yn barod ar gyfer hynny. Os caiff rhagor o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos neu ddeunydd amheus eu datgelu, dylai'r gwaith ddod i ben a dylid diogelu'r ardal ac ailasesu'r gwaith cyn parhau. Lle y bo'n bosibl, dylai gwaith gael ei wneud mewn ardal ar wahân neu y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Dylid cynnal archwiliadau ar ôl cwblhau'r gwaith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risgiau gweddilliol yn dal i fodoli cyn i'r ardal gael ei hailfeddiannu.

Os nodir y bydd y gwaith arfaethedig yn tarfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, dylid cymryd camau ychwanegol i asesu'r risgiau a nodi'r mesurau rheoli i wneud y gwaith yn unol â chanllawiau perthnasol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Dylid asesu'r gwaith er mwyn nodi a yw'r "gwaith gydag asbestos" yn waith trwyddedadwy - h.y. mai dim ond contractwr trwyddedig a all ei wneud neu fod angen rhoi gwybod amdano fel "gwaith annhrwyddedadwy hysbysadwy" (NNLW). Os na fydd angen trwydded ar gyfer y gwaith, dylid sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud y gwaith yr hyfforddiant, y wybodaeth, y profiad a'r cyfarpar sydd eu hangen i wneud y gwaith a bod y gwaith wedi cael ei gynllunio'n briodol. Dylid adolygu'r dull gweithio arfaethedig cyn dechrau er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrin â risgiau rhagweladwy ac yn eu rheoli. Dylid gwneud y gwaith yn y fath fodd fel ei fod ar wahân i'r ysgol ac, os oes angen, wedi'i selio oddi wrthi. Dylid cynnal archwiliadau perthnasol ar ôl y gwaith, gan gynnwys gweithdrefn gymeradwyo ffurfiol (a all gynnwys gwaith samplu, yn dibynnu ar gwmpas y gwaith), cyn y gellir cadarnhau bod yr ardal yn addas i'w hailfeddiannu.

Dylid monitro'r gweithgarwch gwaith er mwyn sicrhau y caiff y rheolaethau eu dilyn ac y caiff rhagofalon ychwanegol eu cymryd pan gaiff cwmpas y gwaith ei ddiwygio.

### **5.4 Gwaith adeiladu ar raddfa fwy:**

Os bydd y gwaith yn rhan o brosiect adeiladu sydd i'w gyflawni o dan reolaeth Prif Contractwr, dylid darparu'r holl wybodaeth berthnasol a gedwir gan yr ysgol cyn llunio'r contract i'w chynnwys yn yr ystyriaethau ar gyfer cam cynllunio'r contract, o dan Reoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015. Dylai'r ysgolion gael sicrwydd yr ymdrinnir â'r deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn briodol ac y caiff unrhyw waith ei wahanu'n briodol oddi wrth weithgareddau'r ysgol.

### **5.5 Deunyddiau Gwastraff**

Mae'n rhaid gwaredu deunyddiau gwastraff sy'n cynnwys asbestos fel gwastraff peryglus. Os caiff y gwaith ei wneud gan staff mewnol, chi fydd yn gyfrifol am sicrhau y caiff unrhyw wastraff ei waredu'n ddiogel ac yn unol â gofynion Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2009). Os byddwch wedi gosod y gwaith ar contract allanol, y contractwyr sy'n gyfrifol am ei waredu, er mai chi fydd yn gyfrifol am gael nodyn cludo gwastraff er mwyn cadarnhau bod yr asbestos wedi'i waredu'n briodol.

**Adnoddau Allweddol:**

[Need building work done? A short guide for clients on the Construction \(Design and Management\) Regulations 2015](#)

[Cyngor ar waith trwyddedadwy gydag asbestos \(Saesneg yn unig\)](#)

[Cyngor ar waith heb ei drwyddedu gydag asbestos](#)

[Gwybodaeth am waredu gwastraff asbestos \(Saesneg yn unig\)](#)

## **6. Cyllid ar gyfer gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw ar adeiladau ysgol**

Bydd y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif hefyd yn sicrhau buddsoddiad sylweddol yn ein hystad addysgol. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i ailadeiladu ac adnewyddu ysgolion a cholegau ledled Cymru. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar rai o'n hysgolion a cholegau sydd yn y cyflwr gwaethaf ac, felly bydd yn cynnwys cael gwared ar asbestos neu ei drin lle y bo'n briodol.

Gall awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio arian o Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru er mwyn cynnal a chadw eu holl adeiladau ysgol mewn cyflwr da.

## 7. Beth i'w wneud os bydd pethau yn mynd o chwith

Dylai fod gan ysgolion 'Gweithdrefn Frys' ar waith, sy'n nodi'r camau y dylid eu cymryd os terfir ar asbestos neu os caiff ei ddifrodi yn anfwriadol. Mae Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, 'Asbestos Essentials EM1', yn rhoi manylion llawn. Fodd bynnag, dylai'r camau gynnwys y canlynol:

- rhoi'r gorau i unrhyw weithgaredd yn yr ardal yr effeithir arni ar unwaith;
- symud pawb o'r ardal yr effeithir arni;
- sicrhau na all staff na disgyblion gyrraedd yr ardal ac nad ydynt yn mynd ag unrhyw eitemau gan gynnwys cyfarpar, llyfrau neu eiddo personol allan o'r ardal;
- cael cyngor gan arbenigwr ym maes asbestos ar unrhyw gamau adfer sydd angen eu cymryd;
- atal mynediad pellach i'r ardal nes i unrhyw gamau adfer angenrheidiol gael eu cymryd;
- trefniadau ar gyfer dadhalogi unrhyw bobl sydd wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â llwch a gweddillion a all gynnwys ffeibrau asbestos;
- trefniadau ar gyfer atal unrhyw halogiad asbestos rhag ymledu o'r ardal yr effeithir arni gan gynnwys ar ddillad personol.

Mae angen rhoi gwybod am rai achosion penodol o amlygiad i asbestos o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR). Dylai ysgolion gysylltu â'u hawdurdod lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn trafod unrhyw ddigwyddiad a nodi a oes angen rhoi gwybod amdano.

Dylai fod gan contractwyr sy'n gwneud gwaith yn yr ysgol weithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw asbestos a gaiff ei ryddhau'n anfwriadol neu'n annisgwyl. Dylech gael eich hysbysu am unrhyw achos o ryddhau asbestos fel y gellir cymryd y camau priodol, gan gynnwys y rhai a nodwyd uchod.

Wrth reswm, mae pobl sydd wedi'u hamlygu i asbestos yn pryderu ynghylch yr effeithiau posibl ar eu hiechyd. Gwnewch yn siŵr bod staff, disgyblion neu eu rhieni yn cael gwybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn deall y risgiau. Os byddant yn dal i bryderu am amlygiad dylent gysylltu â'u meddyg teulu a hysbysu'r awdurdod lleol. Dylai Cynllun Rheoli Asbestos eich ysgol nodi'r gweithdrefnau y dylai staff eu dilyn os bydd digwyddiad sy'n cynnwys asbestos. Mae'n rhaid i chi gyfleu hyn yn glir i bob aelod o staff.

### Adnoddau Allweddol

[Rhestr wirio asbestos yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(Saesneg yn unig\)](#)

[Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Rheoli asbestos mewn ysgolion – cwestiynau cyffredin \(Saesneg yn unig\)](#)

[Cyngor ar asbestos gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(Saesneg yn unig\)](#)

[Tudalen we RIDDOR yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(Saesneg yn unig\)](#)

[Cymdeithas Genedlaethol Rheoli Busnes Ysgol Cydbwyllgor Asbestos yr Undebau \(Saesneg yn unig\)](#)

[Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig <http://www.hse.gov.uk/pubns/guidance/em1.pdf>](http://www.hse.gov.uk/pubns/guidance/em1.pdf)

## 8. Rhestr wirio gwybodaeth

Mae'r tabl isod yn rhestr wirio ar gyfer gwybodaeth yn y ddogfen ganllaw hon. Mae fersiwn fanylach hefyd ar gael gan yr [Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(HSE\)](#)

Rhestr Wirio Gwybodaeth	Lleoliad Gwybodaeth
A ydych yn gwybod pwy sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol cyffredinol am reoli gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a wneir ar adeiladau'r ysgol (Pwy yw'r deiliad dyletswydd)?	
A ydych yn deall goblygiadau asbestos yn eich ysgol?	
A ydych yn deall eich cyfrifoldebau fel deiliad dyletswydd?	
A oes Cynllun Rheoli Asbestos ar waith? A oes cynllun ar waith i adolygu'r wybodaeth hon yn rheolaidd?	
A oes arolwg rheoli wedi'i gynnal? A yw lleoliad deunyddiau sy'n cynnwys asbestos wedi'i ddogfennu?	
A ydych yn gwybod am y mathau o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos a ddogfennwyd a lle y gellir dod o hyd iddynt?	
Os oes deunyddiau sy'n cynnwys asbestos wedi'u nodi, a ydych wedi cwblhau asesiad o'r risgiau posibl neu gyfrannu at asesiad o'r fath?	
A oes gennych gynllun rheoli sy'n nodi sut i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn eich ysgol?	
A oes rhagofalon ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir gwybodaeth i unrhyw un a all darfu ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos am unrhyw asbestos sy'n bresennol, ac a yw'r trefniadau hyn wedi cael eu profi?  A oes unrhyw aelodau mewnol o staff, a all wneud gwaith cynnal a chadw, wedi cael hyfforddiant digonol (Rheoliad 4)?	
A oes proses ar waith ar gyfer adolygu eich Cynllun Rheoli Asbestos yn rheolaidd?	
A ydych chi, a'ch person penodedig yn eich absenoldeb, yn gwybod beth i'w wneud os bydd pethau'n mynd o chwith?	
A allwch gael gafael ar eich Cynllun Rheoli Asbestos hyd yn oed os yw mynediad i'r adeilad wedi'i gyfyngu?	
A oes trefniadau clir ar gyfer monitro cyflwr y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos?	
A ydych wedi darparu hyfforddiant priodol i'r rhai a all ddod i gysylltiad â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos.	
A ydych wedi darparu hyfforddiant priodol i'r rhai â dyletswyddau penodol o ran rheoli asbestos (i gynnwys y Person Penodedig, y Dirprwy Person Penodedig, y rhai a all drefnu gwaith cynnal a chadw ymatebol neu fân brosiectau, a'r rhai a all gynnal arolygiadau o gyflwr deunyddiau sy'n cynnwys asbestos fel y cyfeirir atynt yn y Ddogfen ganllaw hon)?	

## 9. Sefydliadau defnyddiol

[Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(HSE\)](#)

[Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon \(NAHT\)](#)

[Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau \(ASCL\) Cymru](#)

[Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr \(ATL\) Cymru - NEU](#)

[Undeb Cenedlaethol yr Athrawon \(NUT\) – NEU](#)

[Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau \(NASUWT\)](#)

[UNSAIN Cymru](#)

[UCAC](#)

[GMB](#)

[Unite the Union](#)

[Voice the Union](#)

[Cydbwyllgor Asbestos yr Undebau \(JUAC\)](#)

[Cyngres yr Undebau Llafur \(TUC\)](#)

[Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig \(UKAS\)](#)

[Cymdeithas Hyfforddiant Asbestos y DU \(UKATA\)](#)

[Cymdeithas Profi ac Ymgynghoriaeth Asbestos \(ATaC\)](#)

[Darparwyr Hyfforddiant Asbestos Annibynnol \(IATP\)](#)

[Mesothelioma y DU Cyfyngedig](#)

[Nyrsys McMillan](#)

[Ymchwil Canser y DU](#)

[Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

**Cysylltwch ag adrannau eiddo ac addysg eich awdurdod lleol**